



## Adroddiad adolygiad sector Peirianeg wedi'i gyhoeddi

Yn dilyn adolygiad helaeth, heddiw rydym wedi cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad o'r sector Peirianeg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni.

Mae'r adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau ein hadolygiad manwl a oedd yn cynnwys dros 100 o gyfweiliadau â rhanddeiliaid, trafodaethau â ffocws gyda thros 350 o ddysgwyr, arolwg ar-lein, adolygiad o gymwysterau ac astudiaeth gymhariaeth ryngwladol.

Mae'r adolygiad wedi nodi llawer o gryfderau yn y sector hanfodol hwn, ond hefyd meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad, yn ogystal â'r camau y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym.

Mae adroddiad yr adolygiad sector i'w weld [yma](#).

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adolygiad neu ein hadroddiad cyhoeddedig, cysylltwch â ni yn [adolygiadpeirianeg@cymwysteraucymru.org](mailto:adolygiadpeirianeg@cymwysteraucymru.org)

## Newidiadau i gronfa ddata QiW

O 30 Hydref 2020, bydd holl ddefnyddwyr cronfa ddata QiW yn gallu gweld, chwilio ac allforio'r **holl** gymwysterau yr ydym yn eu rheoleiddio.

Ar hyn o bryd, dim ond ar QiW y gall canolfannau neu aelodau o'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â'r cymwysterau hynny sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed (cymwysterau cymeradwy a dynodedig).

O 30 Hydref, bydd cymwysterau 'rheoleiddiedig eraill' hefyd ar gael ar QiW – cymwysterau yr ydym yn eu rheoleiddio ond **nad** ydynt yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed.

Rydym wedi gwahaniaethu'n glir rhwng y rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed (wedi'u cymeradwyo a'u dynodi) a'r rhai nad ydynt (rheoleiddiedig eraill) ar gofnodion y cymwysterau ac yn y swyddogaeth chwilio.

Cysylltwch â [cydnabodachymeradwyo@cymwysteraucymru.org](mailto:cydnabodachymeradwyo@cymwysteraucymru.org) gydag unrhyw ymholiadau pellach neu edrychwch ar ein Cwestiynau Cyffredin gan Ganolfannau ar [hafan](#) QiW ar ei newydd wedd.



## Hyfforddiant am ddim i athrawon TAG yr Amgylchedd Adeiledig

Rydym wedi llunio gofynion ar gyfer cymhwyster TAG UG/Safon Uwch newydd Yr Amgylchedd Adeiledig, a fydd ar gael i'w gyflwyno o fis Medi 2022. CBAC sy'n datblygu'r cymhwyster ar hyn o bryd.

Er mwyn cefnogi ymarferwyr i gyflwyno'r cymhwyster hwn yn effeithiol, mae Cymwysterau Cymru yn ariannu rhaglen hyfforddi **am ddim**. Bydd CBAC yn darparu'r rhaglen a bydd yn cynnwys chwe gweithdy hyfforddi rhithwir ac yn darparu amrywiaeth o adnoddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Mae'r sesiwn rithwir gyntaf wedi'i threfnu ar gyfer 17 Tachwedd 2020, 3.30-5.30pm.

I ddarllen rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant ac i archebu lle, ewch i'n [gwefan](#).

## *Cyfleoedd i ddweud eich dweud*

### Datblygu Meini Prawf Cymeradwyo TAG Safon UG/Uwch Technoleg Ddigidol

Rydym yn datblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster TAG UG/Safon Uwch Technoleg Ddigidol newydd a fydd ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2022.

Cyn i ni gwblhau'r meini prawf cymeradwyo hyn, rydym yn gwahodd ymatebwyr i gynnig adborth i ni ynglŷn â:

- Diben y cymhwyster
- Y cynnwys arfaethedig
- Y trefniadau asesu arfaethedig
- Hydrinedd ein cynigion

Bydd yr [arolwg](#) hwn ar agor tan 4:00pm ar 23 Hydref 2020.

Ewch i'n [gwefan](#) i weld rhagor o wybodaeth.

## Sgiliau'r Dyfodol: Ymgynghoriad ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a Bagloriaeth Cymru Uwch

Mae ein hymgynghoriad yn nodi cynigion ar gyfer newidiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a Bagloriaeth Uwch Cymru (Bagloriaeth Cymru).

Ar ein [gwefan](#), fe welwch y ddogfen ymgynghori fanwl (y brif ddogfen ymgynghori) sy'n egluro ein cynigion a'n rhesymau drostynt, yn ogystal â doleri i arolwg byr a gynlluniwyd i'ch annog i rannu eich barn ar ein cynigion. Rydym hefyd yn darparu fersiwn byrrach (Fersiwn Cryno) ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd. Ochr yn ochr â hi fe welwch ddoleri i Fersiwn Cryno'r arolwg.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan **hanner dydd, ddydd Gwener 13 Tachwedd 2020**.



### Recriwtio

Rydym yn recriwtio ar gyfer y swydd ganlynol ar hyn o bryd:

Cynorthwy-ydd Swyddfa (£20,500 - £23,830 y flwyddyn)

**Dyddiad cau: 10am, 26 Hydref 2020**

Mae cyfle wedi codi i Gynorthwydd Swyddfa ymuno â ni yn barhaol. Bydd Cynorthwydd y Swyddfa yn adrodd i Gynorthwydd Cymwysterau ac yn cyflawni amrywiaeth o dasgau ar eu rhan i sicrhau bod y Gyfarwyddiaeth Diwygio Polisi Cymwysterau yn cael ei rhedeg yn ddidrafferth.

Gallwch ddarllen swydd-ddisgrifiad llawn [yma](#).

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

You can follow us on social media for the latest news on our work:  
Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:



*Copyright © 2020 Qualifications Wales All rights reserved.*

**Contact us:**

[comms@qualificationswales.org](mailto:comms@qualificationswales.org)

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.